

Llawlyfr y Cyfryngau

Etholiadau Senedd Ewrop

Dydd Iau 23 Mai 2019

Cysylltiadau'r cyfryngau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol
Hannah Law a Billy Proudlock
Ffôn: 020 7271 0704
press@electoralcommission.org.uk
Oriau y tu allan i'r swyddfa: 07789 920 414

Ein sianeli

Dilynwch ni ar Twitter:
[@ElectoralCommUK](https://twitter.com/ElectoralCommUK) a [@YourVote_UK](https://twitter.com/YourVote_UK)
Hoffwch ni ar [Facebook](#)
Darllenwch ein [blog](#)

Gwefannau

comisiwnetholiadol.org.uk

Mae gan ein gwefan gorfforaethol [adran benodedig ar gyfer newyddiadurwyr](#) sy'n cynnwys ein datganiadau i'r wasg a datganiadau eraill. Mae'n cynnwys gwybodaeth am roddion pleidiau gwleidyddol yn y cyfnod cyn yr etholiad ac adran canllawiau sy'n cynnwys gwybodaeth i ymgeiswyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r etholiad.

dybleidlaisdi.co.uk

Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i gofrestru a phleidleisio, gan gynnwys ffurflenni y gallant eu hargraffu i gofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio drwy ddefnyddio cod post sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eu swyddfa cofrestru etholiadol leol a manylion am orsafoedd pleidleisio ac ymgeiswyr.

gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Dyma'r wefan lle gall y cyhoedd gofrestru i bleidleisio ar-lein. Mae'n gyflym ac yn hawdd i'w defnyddio. Ers ei lansio ym mis Mehefin 2014, mae miliynau o geisiadau i gofrestru i bleidleisio wedi cael eu cyflwyno. Rydym yn annog y cyfryngau i gyfeirio at y wefan hon wrth sôn am yr etholiad er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwybod ble y gallant gofrestru.

Cynnwys

- Logistics 3**
- Candidates 8**
- Political parties 14**
- Non-party campaigners..... 17**
- Electoral fraud..... 19**
- Voters 2521**
- Count events 27**

1 Logisteg

Rolau a chyfrifoldebau yn ystod y digwyddiad pleidleisio

Mae etholiadau Senedd Ewrop yn cael eu cynnal ar 23 Mai 2019. Caiff 73 o ASEau eu hethol i'r 12 o ranbarthau etholiadol yn y DU. Mae dosbarthiad y 73 o ASEau yn y DU yn seiliedig ar nifer y bobl a all bleidleisio ym mhob un o'r deuddeg rhanbarth etholiadol:

Rhanbarth	Nifer yr ASEau
Dwyrain Canolbarth Lloegr	5
Dwyrain Lloegr	7
Llundain	8
Gogledd-ddwyrain Lloegr	3
Gogledd-orllewin Lloegr	8
De-ddwyrain Lloegr	10
De-orllewin Lloegr	6
Gorllewin Canolbarth Lloegr	7
Swydd Efrog a'r Humber	6
Cymru	4
Yr Alban	6
Gogledd Iwerddon	3

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

Mae gan bob rhanbarth Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Mae gweinidogion Llywodraeth y DU yn gyfrifol am benodi Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol. Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol fod yn Swyddog Canlyniadau Gweithredol; yn yr Alban, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol fod yn Swyddog Canlyniadau Senedd y DU; yng Ngogledd Iwerddon, mae Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon yn gweithredu fel y Swyddog Canlyniadau.

Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am y canlynol:

- cyhoeddi hysbysiad am etholiad Senedd Ewrop
- cynnal y gweithdrefnau enwebu
- annog cyfranogiad

- cyfrifo'r pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd unigol/plaid wleidyddol a dyrannu seddau
- datgan y canlyniad

Ceir [rhestr lawn o'r Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar ein gwefan](#).

Swyddog Canlyniadau Lleol

Mae'r rhan fwyaf o ranbarthau etholiadol wedi'u rhannu'n ardaloedd cyfrif. Yr ardal gyfrif leol yw ardal yr awdurdod lleol dosbarth, bwrdeistref neu unedol yn Lloegr, ac ardal yr awdurdod lleol yng Nghymru a'r Alban. Mae Gogledd Iwerddon yn un ardal gyfrif unigol.

Penodir Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer pob ardal gyfrif. Mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn bersonol gyfrifol am gynnal yr etholiad yn yr ardal honno, gan gynnwys cyhoeddi cardiau pleidleisio a pheynnau pleidleisio drwy'r post, trefnu a chynnal y digwyddiad pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau.

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Canlyniadau Lleol weithredu'n unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs yn Saesneg) yn gyfrifol am baratoi a chynnal y cofrestrau etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Rhaid iddynt sicrhau bod y cofrestrau etholiadol mor gywir a chyflawn â phosibl.

Swyddogion Llywyddu

Penodir Swyddogion Llywyddu gan Swyddogion Canlyniadau Lleol i fod yn gyfrifol am orsafoedd pleidleisio. Bydd y dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf pleidleisio, goruchwylio clerod pleidleisio, rhoi papurau pleidleisio, helpu pleidleiswyr, rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a sicrhau y caiff blychau pleidleisio eu cludo'n ddiogel i leoliad y cyfrif.

Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb. Ein rôl yn yr etholiadau hyn yw:

- llunio canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau Lleol, pennu safonau perfformiad a chyflwyno adroddiad ar berfformiad gweinyddwyr etholiadol yn erbyn y safonau hyn
- llunio canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid
- llunio canllawiau ar gyfer pleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- llunio canllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad
- cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau a sut i gymryd rhan ynddynt

- cyflwyno adroddiadau ar sut y cynhaliwyd yr etholiadau
- cyhoeddi manylion ynghylch ble y mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario

Amserlen yr etholiad

Digwyddiad	Dyddiad (Canol nos yw'r terfyn amser oni nodir yn wahanol)	
	Pob rhanbarth etholiadol ym Mhrydain Fawr, ac eithrio De-orllewin Lloegr	Rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr yn unig
Dechrau'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau	Heb fod yn gynharach na 23 Ionawr 2019	Heb fod yn gynharach na 23 Ionawr 2019
Hysbysiad swyddogol am yr etholiad	Dydd Llun 15 Ebrill fan bellaf	Dydd Gwener 12 Ebrill fan bellaf
Dechrau'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer gwariant ar ymgyrchu gan ymgeiswyr annibynnol	Dydd Llun 15 Ebrill 2019	Dydd Gwener 12 Ebrill;
Cyflwyno papurau enwebu a rhestrau ymgeiswyr ar gyfer pleidiau cofrestredig	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad swyddogol am yr etholiad tan 4pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019	Rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad swyddogol am yr etholiad tan 4pm ddydd Mercher 24 Ebrill 2019
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol	4pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019	4pm ddydd Mercher 24 Ebrill 2019
Y dyddiad cau ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	4pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019	4pm ddydd Mercher 24 Ebrill 2019
Y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu papurau enwebu neu restrau ymgeiswyr pleidiau cofrestredig	Rhwng 10am a 12 canol dydd ddydd Iau 25 Ebrill, gellir gwrthwynebu unrhyw bapurau enwebu a ddosbarthwyd.	Rhwng 10am a 12 canol dydd ddydd Mercher 24 Ebrill, gellir gwrthwynebu unrhyw bapurau enwebu a

ddosbarthwyd.

Rhwng 12 canol dydd a 5pm ddydd Mercher 24 Ebrill, dim ond enwebiadau a ddosbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mawrth 23 Ebrill y gellir eu gwrthwynebu.

Y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebu papurau enwebu ar sail y ffaith fod ymgeisydd unigol o bosibl wedi'i anghymhwyso o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1981

Mae'r Comisiwn wedi llunio [canllawiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n egluro beth fydd yn eu hanghymhwyso rhag sefyll mewn etholiad](#)

Rhwng 12 canol dydd a 5pm ddydd Iau 25 Ebrill, dim ond enwebiadau a ddosbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mercher 24 Ebrill y gellir eu gwrthwynebu

Rhwng 12 canol dydd a 5pm ddydd Mercher 24 Ebrill, dim ond enwebiadau a ddosbarthwyd ar ôl 4pm ddydd Mawrth 23 Ebrill y gellir eu gwrthwynebu.

Cyhoeddir rhestrau o bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol

Os na fydd gwrthwynebiadau: am 5pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019
Gwneir gwrthwynebiad/ gwrthwynebiadau: nid cyn gwaredu gwrthwynebiad/gwrthwynebiadau ond heb fod yn hwyrach na 4pm ddydd Gwener 26 Ebrill 2019

Os na fydd gwrthwynebiadau: am 5pm ddydd Mercher 24 Ebrill 2019

Gwneir gwrthwynebiad/ gwrthwynebiadau: nid cyn gwaredu gwrthwynebiad/ gwrthwynebiadau ond heb fod yn hwyrach na 4pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru i bleidleisio

Dydd Mawrth 7 Mai 2019

Dydd Mawrth 7 Mai 2019

Y dyddiad cau i ddinasyddion yr UE gyflwyno ffurflen datganiad yn nodi ble y byddant yn pleidleisio (ffurflen UC 1)

Dydd Mawrth 7 Mai 2019

Dydd Mawrth 7 Mai 2019

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post, ceisiadau i bleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy, ac am newidiadau i bleidleisiau drwy'r post neu bleidleisiau drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes	5pm ddydd Mercher 8 Mai 2019	5pm ddydd Mercher 8 Mai 2019
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau newydd am bleidlais drwy ddirprwy	5pm ddydd Mercher 15 Mai 2019	5pm ddydd Mercher 15 Mai 2019
Diwrnod pleidleisio	7am i 10pm ddydd Iau 23 Mai 2019	7am i 10pm ddydd Iau 23 Mai 2019
Y pwynt olaf y gellir ailgyhoeddi pleidleisiau drwy'r post a ddifethwyd neu a gollwyd	5pm ddydd Iau 23 Mai 2019	5pm ddydd Iau 23 Mai 2019
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy	5pm ddydd Iau 23 Mai 2019	5pm ddydd Iau 23 Mai 2019
Datgan canlyniad	Heb fod yn gynharach na 10pm ddydd Sul 26 Mai 2019	Heb fod yn gynharach na 10pm ddydd Sul 26 Mai 2019
Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno cofnod treuliau etholiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (ar gyfer ymgeiswyr unigol a threuliau personol ymgeiswyr sy'n rhan o'r rhestr pleidiau)	50 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan fan bellaf. Os caiff y canlyniad ei ddatgan ar 26 Mai: 15 Gorffennaf 2019 Os caiff y canlyniad ei ddatgan ar 27 Mai: 16 Gorffennaf 2019	50 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan fan bellaf Os caiff y canlyniad ei ddatgan ar 26 Mai: 15 Gorffennaf 2019 Os caiff y canlyniad ei ddatgan ar 27 Mai: 16 Gorffennaf 2019
Y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ar ymgyrchu gan y rhai nad ydynt yn bleidiau	Dydd Gwener 23 Awst 2019	Dydd Gwener 23 Awst 2019

Y diwrnod olaf ar gyfer
cyflwyno ffurflenni
gwariant ar ymgyrchu
gan bleidiau
gwleidyddol i'r
Comisiwn Etholiadol
(gwariant o £250,000
neu lai)

Dydd Gwener 23 Awst 2019

Dydd Gwener 23 Awst
2019

Y diwrnod olaf ar gyfer
cyflwyno ffurflenni
gwariant ar ymgyrchu
gan bleidiau
gwleidyddol i'r
Comisiwn Etholiadol
(gwariant o fwy na
£250,000)

Dydd Sadwrn 23 Tachwedd
2019

Dydd Sadwrn 23
Tachwedd 2019

2 Ymgeiswyr

Dod yn ymgeisydd yn etholiadau Senedd Ewrop

Pwy all fod yn ymgeisydd?

Rhaid i ymgeiswyr yn etholiadau Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019 fod:

- yn 18 oed o leiaf ar ddiwrnod eu henwebiad
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd

Os bydd ymgeiswyr yn ddinesydd o'r UE (ac eithrio dinesydd o Brydain, Iwerddon, Malta neu Cyprus), bydd yn ofynnol iddynt wneud datganiad yn nodi'r canlynol:

- eu cenedligrwydd, eu dyddiad geni a'u man geni, eu cyfeiriad diwethaf yn y wlad y maent yn ddinesydd ohoni a'u cyfeiriad cartref yn y DU neu Gibraltar
- nad ydynt yn sefyll fel ymgeisydd yn yr un etholiad ar gyfer Senedd Ewrop yn unrhyw un o aelod-wladwriaethau eraill yr UE
- p'un a nodwyd eu henw ar gofrestr etholiadol yn y wlad y maent yn ddinesydd ohoni, yr ardal leol neu'r etholaeth lle y nodwyd enw'r ymgeisydd ddiwethaf;
- nad ydynt wedi cael eu hanghymhwyso rhag sefyll etholiad yn yr Aelod-wladwriaeth o'r UE y maent yn ddinesydd ohoni oherwydd penderfyniad barnwrol neu weinyddol

Rhaid i ddinesydd o'r UE hefyd fod yn breswlydd yn y DU er mwyn bod yn gymwys i sefyll etholiad yn y DU.

A oes unrhyw reolau sy'n atal ymgeisydd rhag sefyll?

Mae'r rheolau ar gyfer sefyll etholiad a'r anghymwysiadau sy'n gymwys yn gymhleth. Ceir gwybodaeth yn [Rhan 1 o ganllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

Pryd mae rhywun yn dod yn ymgeisydd?

Y dyddiad cynharaf y gall person ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o'r etholiad, sef 12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr a 15 Ebrill 2019 ym mhob man arall. Os bydd person eisoes wedi datgan ei hun yn ymgeisydd yn yr etholiad, yna bydd yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y dyddiad hwn.

Os bydd rhywun yn datgan ar ôl 15 Ebrill 2019 (neu ar ôl 12 Ebrill os yw'r ymgeisydd yn sefyll yn Ne-orllewin Lloegr) y bydd yn ymgeisydd yn yr etholiadau, yna bydd yn dod yn ymgeisydd ar y diwrnod hwnnw, neu'r dyddiad y bydd yn cyflwyno ei bapurau enwebu yn swyddogol - pa un bynnag sydd gynharaf.

Beth sy'n rhaid i rywun ei wneud er mwyn sefyll fel ymgeisydd?

Rhaid i bob darpar ymgeisydd gyflwyno'r canlynol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn 4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 os yw'n sefyll yn rhanbarth De-orllewin Lloegr):

- Ffurflen enwebu wedi'i chwblhau. Ni all darpar ymgeiswyr gyflwyno'r ffurflen enwebu tan y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad o etholiad
- Ei gydsyniad i'r enwebiad
- Ernes o £5,000

Ar ôl yr etholiad, dychwelir yr ernes os bydd yr ymgeisydd wedi cael mwy na 2.5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol.

Ceir rhagor o [ganllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar sefyll etholiad](#) ar ein gwefan.

Pwy yw'r ymgeiswyr?

Y dyddiad cau i ddarpar ymgeiswyr gyflwyno papurau enwebu oedd 4pm ar 25 Ebrill 2019 (4pm ar 24 Ebrill 2019 os ydynt yn sefyll yn rhanbarth De-orllewin Lloegr).

Os na fu unrhyw wrthwynebiadau i'r papurau enwebu, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cyhoeddi datganiad o'r bobl a enwebwyd erbyn 5pm ddydd Iau 25 Ebrill 2019 (5pm ddydd Mercher 24 Ebrill 2019 os ydynt yn sefyll yn rhanbarth De-orllewin Lloegr). Fel arfer, bydd y datganiad hwn ar gael ar wefan yr awdurdod lleol lle mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol yn gweithio.

Pleidiau Gwleidyddol

Pwy sy'n penderfynu pa ymgeiswyr y bydd plaid yn eu cynnig?

Ym Mhrydain Fawr, mae pleidiau gwleidyddol yn defnyddio'r system rhestrau pleidiau ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop. Maent yn penderfynu pa ymgeiswyr y maent am eu cynnig ac ym mha drefn yr hoffent iddynt ymddangos ar eu rhestr.

Yng Ngogledd Iwerddon, nid oes unrhyw restrau pleidiau, ond mae'r pleidiau hefyd yn penderfynu'n fewnol pa ymgeiswyr y maent am eu cynnig.

Gall ymgeiswyr unigol, nad ydynt yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol, hefyd sefyll yr etholiad. Dim ond y disgrifiad 'Annibynnol' y gallant ei ddefnyddio ar y papurau pleidleisio (a/neu 'Independent' yn Saesneg) ac ni allant ddefnyddio emblem

A oes yn rhaid bod pleidiau sy'n sefyll yn yr etholiadau wedi'u cofrestru â'r Comisiwn?

Dim ond y pleidiau gwleidyddol hynny sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol y gellir cynnwys eu henw a'u disgrifiadau a'u hemblemau cymeradwy ar bapur pleidleisio. Os na fydd plaid wedi'i chofrestru â'r Comisiwn, gall ymgyrchu mewn etholiadau o hyd, ond byddai'n rhaid i unrhyw ymgeiswyr yr hoffai iddynt sefyll ar ei rhan nodi 'Annibynnol' wrth ymyl eu henw (a/neu 'Independent' yn Saesneg), yn hytrach nag enw plaid.

A oes yn rhaid i ymgeiswyr sefyll o dan enw plaid wleidyddol?

Nac oes, gall person sefyll fel ymgeisydd annibynnol, h.y. nid ar ran unrhyw blaid wleidyddol.

Ymgyrchu yn yr etholiad

Beth gall ymgeiswyr ei ddweud am ei gilydd yn ystod yr ymgyrch?

Fel sy'n wir am bob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Mae rheolau am ddifenwi hefyd yn gymwys i ddeunyddiau etholiadol.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o'r drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw difenwi.

Fel gyda phob etholiad, nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl reoliadol mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu neu'r hyn y mae ymgeiswyr yn ei ddweud am ei gilydd.

Bygwth ymgeiswyr mewn etholiadau

Ar 13 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (CSPL) [adroddiad ar fygythiadau a brofwyd gan ymgeiswyr seneddol yn yr etholiad cyffredinol ym mis Mehefin 2017](#).

Ar 6 Chwefror 2018, ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Pwyllgor yn cyhoeddi mesurau mewn ymateb i'w ganfyddiadau. Rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Hydref 2018, cynhaliodd Swyddfa'r Cabinet [ymgynghoriad ar gyflwyno trosedd newydd mewn cyfraith etholiadol ar fygwth ymgeiswyr ac ymgyrchwyr](#). Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r Comisiwn hefyd yn gweithio gyda'r heddlu i lunio canllawiau ar y cyd ar fygwth.

A oes unrhyw reolau etholiadol ynghylch deunyddiau ymgyrchu?

Yn ôl y gyfraith, rhaid i ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnyddio 'argraffnodau ar eu holl ddeunydd ymgyrchu argraffedig. Mae argraffnod yn cynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a'r hyrwyddwr (y sawl a awdurdododd i'r deunydd gael ei argraffu). Rhaid ei gynnwys ar unrhyw ddeunydd argraffedig megis posteri, placardiau a thafenni. Rhaid i hyn ddigwydd fel y gall etholwyr fod yn glir ynghylch ffynhonnell y deunydd ymgyrchu. Mae'n drosedd peidio â chynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol.

Er nad yw'n ofyniad cyfreithiol, mae'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell y dylai ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, lle bynnag y bo'n bosibl, osod argraffnod ar eu deunyddiau electronig (e.e. gwefannau, negeseuon e-bost a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol). Mae angen i bleidleiswyr wybod pwy sy'n targedu negeseuon gwleidyddol atynt ar-lein ac rydym wedi gwneud cais i newid y gyfraith.

A all ymgeiswyr weld y gofrestr etholiadol?

Unwaith y bydd rhywun yn dod yn ymgeisydd, mae ganddo'r hawl i gael copi, am ddim, o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau o'r bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau'r pleidleiswyr absennol) ar gyfer yr ardal etholiadol y maent yn sefyll ynddi.

Dim ond er mwyn helpu i gwblhau eu ffurflen enwebu, i ymgyrchu ac i gadarnhau bod y rhoddion a gânt yn dod o ffynhonnell a ganiateir y gall ymgeiswyr ddefnyddio'r gofrestr etholiadol lawn.

Terfynau gwariant ymgeiswyr unigol a'r rheolau ar dderbyn rhoddion

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir?

Y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod cyn etholiad pan fydd y rheolau ar wariant etholiadol yn gymwys i drefniadau ymgyrchu. Rhaid i ymgeiswyr roi gwybod am yr holl wariant yr eir iddo yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgeiswyr unigol sy'n sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop 2019 yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y daw person yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 23 Mai 2019.

Y dyddiad cynharaf y gall person ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad, sef dydd Llun 15 Mawrth 2019 (dydd Gwener 12 Ebrill, os yw'r person yn sefyll yn rhanbarth De-orllewin Lloegr.)

Os yw'r ymgeiswyr yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig neu os ydynt eisoes yn dal rhyw swydd etholedig berthnasol, mae angen iddynt ddilyn y [rheolau ynglŷn â rhoddion a benthyciadau sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol cyn y cyfnod a reoleiddir](#).

Beth yw'r terfynau gwariant? (Prydain Fawr)

Y terfyn gwariant i ymgeiswyr unigol yn ystod y cyfnod a reoleiddir yw £45,000 wedi'i luosi â nifer yr ASEau i'w hethol yn y rhanbarth lle maent yn sefyll. Dim ond pan fydd yr ymgeisydd yn sefyll fel ymgeisydd annibynnol ac nad yw ar restr plaid y mae'r terfynau gwariant i ymgeiswyr yn berthnasol ym Mhrydain Fawr.

Nodir y terfynu i **ymgeiswyr annibynnol** ym mhob rhanbarth isod:

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwariant
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£225,000
Dwyrain Lloegr	£315,000
Llundain	£360,000
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£135,000
Gogledd-orllewin Lloegr	£360,000
De-ddwyrain Lloegr	£450,000
De-orllewin Lloegr	£270,000
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£315,000
Swydd Efrog a'r Humber	£270,000

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhanbarthau ar wahân. Mae'r terfynau canlynol yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol sy'n sefyll yn unrhyw un o'r gwledydd hyn.

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwariant
Yr Alban	£270,000
Cymru	£180,000
Gogledd Iwerddon	£135,000

Yng Ngogledd Iwerddon, mae gan bob ymgeisydd derfyn gwariant ar wahân i derfyn gwariant y blaid. Y terfyn gwariant i ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon yw £135,000.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys costau:

- hysbysebu o unrhyw fath, megis posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau, hysbysebion a gaiff eu harddangos ar-lein, eitemau a gaiff eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol neu fideos YouTube
- deunydd a anfonir at bleidleiswyr yn ddigymell, megis llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost nas anfonir mewn ymateb i ymholiadau penodol
- costau trafnidiaeth, megis ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i ymgyrchwr yr ymgeisydd
- cyfarfodydd cyhoeddus
- costau staff (e.e. cyflog asiant, neu staff sydd wedi'u secondio i ymgeisydd)
- adeiladau (e.e. swyddfa'r ymgyrch)
- costau gweinyddol (e.e. biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, gwaith llungopïo a defnyddio cronfeydd data)

Mae gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif yn cynnwys y canlynol:

- talu ernes ymgeisydd
- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- defnyddio ystafelloedd cyfarfodydd cyhoeddus
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan staff yr ymgeisydd nad yw'n eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim

- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol yr unigolyn hwnnw ac a ddarperir am ddim
- cyfarpar cyfrifiadurol cyffredinol a brynir at ddefnydd personol yr ymgeisydd

Pwy all roi rhoddion i ymgeiswyr?

Gall unrhyw un roi rhodd sy'n werth llai na £50 i ymgeiswyr. Nid yw'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan rhoddion gwerth £50 neu lai ar eu ffurflen gwariant a rhoddion.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau mai dim ond os bydd yn dod o ffynhonnell a ganiateir y byddant yn derbyn unrhyw rodd gwerth mwy na £50. Mae hyn yn berthnasol i roddion arian parod a rhoddion mewn nwyddau. Rhaid i roddion nad ydynt o ffynhonnell a ganiateir gael eu dychwelyd at y rhoddwr o fewn 30 diwrnod. Ar ôl hynny, gall y rhodd gael ei fforffedu.

Diffinnir rhoddwyr a ganiateir yn y DU fel:

- unigolyn ar un o gofrestrau etholwyr y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU

I bwy y mae ymgeiswyr yn rhoi gwybod am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno eu ffurflenni gwariant ar ymgyrchu i'w Swyddog Canlyniadau o fewn 50 diwrnod i ddatgan canlyniad yr etholiad.

Os na eir i unrhyw wariant, rhaid cyflwyno datganiad dim trafodion gan yr ymgeisydd.

Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd yn mynd y tu hwnt i'w derfyn gwariant?

Fel arfer, gwneir honiadau sy'n berthnasol i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, gan gynnwys troseddau sy'n gysylltiedig â gwariant ymgeisydd, i'r heddlu lleol perthnasol eu hystyried.

Er bod gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd statudol i fonitro cydymffurfiaeth â rhannau o'r Ddeddf sy'n ymwneud â threuliau ymgeiswyr ac asiantiaid, nid oes ganddo awdurdod cyfreithiol i ymchwilio i droseddau a rhoi cosbau ar eu cyfer o dan y Ddeddf.

Mae rhagor o wybodaeth am wariant a rhoddion i ymgeiswyr annibynnol yn [Rhan 3 o ganllawiau'r Comisiwn i ymgeiswyr ac asiantiaid](#).

3 Gwariant a rhoddion pleidiau gwleidyddol mewn perthynas ag etholiadau

Terfynau pleidiau gwleidyddol a'r rheolau ar dderbyn rhoddion

Beth yw'r cyfnod a reoleiddir?

Y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod cyn etholiad pan fydd y rheolau ar wariant etholiadol yn gymwys i drefniadau ymgyrchu. Rhaid i bleidiau gwleidyddol roi gwybod am yr holl wariant yr eir iddo yn ystod y cyfnod hwn. Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar 23 Ionawr 2019 a daw i ben ar 23 Mai 2019.

Faint y gall pleidiau ei wario yn etholiadau Senedd Ewrop?

Mae'r terfyn gwariant ar gyfer pleidiau yn seiliedig ar nifer y rhanbarthau lle mae ymgeiswyr yn sefyll ar eu rhan. Fe'i cyfrifir gan ddefnyddio fformiwla. Y fformiwla yw £45,000 wedi'i luosi â nifer yr ASEau i'w hethol ym mhob rhanbarth lle mae ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid.

Nid oes gan ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr plaid derfyn gwariant ar wahân. Caiff yr holl wariant ar hyrwyddo ymgeisydd sydd ar restr plaid ei ystyried fel gwariant y plaid, a rhaid ei nodi ar ffurflen gwariant y plaid.

Er enghraifft, mae 3 ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid Y ar restr plaid yn rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr. Terfyn gwariant y plaid fyddai 5 (cyfanswm nifer yr ASEau ar gyfer y rhanbarth hwn) wedi'i luosi â £45,000 = £225,000. Nodir y cyfrifiad ar gyfer pob rhanbarth yn Lloegr isod.

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwariant
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£225,000
Dwyrain Lloegr	£315,000
Llundain	£360,000
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£135,000
Gogledd-orllewin Lloegr	£360,000
De-ddwyrain Lloegr	£450,000
De-orllewin Lloegr	£270,000
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£315,000
Swydd Efrog a'r Humber	£270,000

Unwaith y defnyddir y fformiwlâu i gyfrifo terfyn gwariant pleidiau yn Lloegr, gellir ei wario yn unrhyw un o'r naw rhanbarth etholiadol yn Lloegr

Os bydd ymgeiswyr yn sefyll ar ran y blaid mewn un rhanbarth etholiadol neu fwy yn Lloegr, ni ddylai fynd y tu hwnt i'r terfynau gwariant cyfun.

Er enghraifft: mae 3 ymgeisydd yn sefyll ar ran plaid Y yn Nwyrain Canolbarth Lloegr ac mae 1 ymgeisydd yn sefyll ar ran y blaid honno yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, cyfrifir terfyn gwariant y blaid fel a ganlyn:

- Caiff 5 ASE eu hethol yn Nwyrain Canolbarth Lloegr: $5 \times 45,000 = \text{£}225,000$
- Caiff 7 ASE eu hethol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr: $7 \times 45,000 = \text{£}315,000$
- Terfyn gwariant y blaid yw $\text{£}225,000 + \text{£}315,000 = \text{£}540,000$
- Gall y blaid wario $\text{£}10,000$ yn Nwyrain Canolbarth Lloegr a $\text{£}530,000$ yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr
- Gall y blaid hefyd benderfynu rhannu ei gwariant ar draws y naw rhanbarth etholiadol yn Lloegr.

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhanbarthau ar wahân. Mae'r terfynau canlynol yn berthnasol i blaid y mae ymgeiswyr yn sefyll ar ei rhan yn unrhyw un o'r gwledydd hyn.

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwariant
Yr Alban	£270,000
Cymru	£180,000
Gogledd Iwerddon	£135,000

Ystyrir unrhyw wariant sy'n hyrwyddo ymgeiswyr ar restr plaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn wariant gan blaid wleidyddol a rhaid ei nodi ar ffurflen y blaid wleidyddol. Nid oes unrhyw derfyn gwariant ar wahân i ymgeiswyr ar restr plaid wleidyddol, ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant?

Mae gweithgareddau a gynhwysir mewn gwariant ar ymgyrchu yn cynnwys y canlynol:

- hysbysebu o unrhyw fath gan y blaid, megis posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau, hysbysebion a gaiff eu harddangos ar-lein, eitemau a gaiff eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol neu fideos YouTube
- deunydd a anfonir at bleidleiswyr yn ddigymell, megis llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost nas anfonir mewn ymateb i ymholiadau penodol
- y maniffesto a dogfennau eraill yn nodi polisiau'r blaid

- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod pa blaid mae pobl yn bwriadu pleidleisio drosti
- cynadleddau'r wasg y blaid neu unrhyw achosion eraill o ymwneud â'r cyfryngau
- raliâu a digwyddiadau pleidiol, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â hyrwyddo neu roi cyhoeddusrwydd i'r blaid

Ymhlith y gweithgareddau nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff gontract cyflogaeth uniongyrchol â'r blaid
- amser gwirfoddolwyr
- costau rhedeg swyddfa, heblaw am gostau sy'n uwch nag arfer oherwydd gwaith ymgyrchu, fel biliau ffôn
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai bod yr ymgeisydd yn ad-dalu'r costau hynny
- treuliau a delir o arian cyhoeddus. Er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau VIP
- deunydd a anfonir at aelodau'r blaid yn unig
- cynadleddau plaid

Oddi wrth bwy y gall pleidiau dderbyn rhoddion?

Yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), cyn y gall plaid dderbyn unrhyw rodd neu fenthyciad o fwy na £500, rhaid iddi gymryd pob cam rhesymol i gadarnhau gwir ffynhonnell y rhodd neu'r benthyciad hwnnw er mwyn sicrhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y blaid i gadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir cyn derbyn rhoddion.

Gall pleidiau dderbyn rhodd gan unrhyw roddwr a ganiateir. Mae rhoddwr a ganiateir yn:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys y rheini dramor a'r rheini sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU

- cymdeithas lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU

Yn ogystal, gall pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon dderbyn rhoddion gan ddinasyddion Gwyddelig a chwmnïau o'r DU neu Iwerddon.

I bwy y mae pleidiau gwleidyddol yn rhoi gwybod am eu gwariant a reoleiddir a phryd?

Rhaid i bleidiau gwleidyddol roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am eu gwariant. Y dyddiad cau ar gyfer rhoi gwybod am wariant o £250,000 neu lai yw 23 Awst 2019. Y dyddiad cau ar gyfer rhoi gwybod am wariant dros £250,000 yw 23 Tachwedd 2019.

Ceir rhagor o [ganllawiau i bleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu ym Mhrydain Fawr yn etholiadau Senedd Ewrop](#) ar ein gwefan.

4 Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Terfynau gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a'r rheolau ar dderbyn rhoddion

Beth yw'r rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau?

Unigolion a sefydliadau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr, yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Mae dau fath o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac mae rheolau penodol yn berthnasol i'w gwariant o fewn y cyfnod a reoleiddir. Ymhlith y rhain mae:

- Ymgyrchoedd lleol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn ymgeisydd mewn ardal etholiadol benodol (er enghraifft, dros ymgeisydd annibynnol mewn rhanbarth).

Er enghraifft, ymgyrchoedd gan gynghrair lleol ar ran ymgeisydd yn rhanbarth etholiadol De-orllewin Lloegr

- Ymgyrchoedd cyffredinol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategoriâu penodol o ymgeisydd, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiau neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr (er enghraifft, ymgeiswyr sy'n cynrychioli plaid ar restr ranbarthol ym Mhrydain Fawr).

Er enghraifft, elusen sy'n ymgyrchu yn erbyn plaid wleidyddol ledled y DU gyfan.

Caiff ymgyrchoedd lleol eu rheoleiddio gan yr heddlu. Rheoleiddir ymgyrchoedd cyffredinol gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae rhagor o wybodaeth am y [rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau Senedd Ewrop](#) ar gael ar ein gwefan.

Pryd y mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru â ni?

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gofrestru â'r Comisiwn os ydynt yn bwriadu gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Beth yw'r terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol?

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr sy'n gwario mwy na swm penodol ar ymgyrchu cyffredinol gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol.

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar 23 Ionawr 2019 a daw i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 23 Mai 2019.

Y terfynau gwariant ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yw:

Wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol?

Rhan o'r DU	Nac ydynt	Ydynt
Lloegr	£20,000	£159,750
Yr Alban	£10,000	£18,000
Cymru	£10,000	£11,259
Gogledd Iwerddon	£10,000	£6,750

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig yn is na'r terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchwyr anghofrestredig. Mae hyn yn golygu na chaiff ymgyrchwyr wario dros £10,000 yng Ngogledd Iwerddon.

Os bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid yn bwriadu ymgyrchu ledled y DU, a'i fod yn cofrestru er mwyn gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru neu'r Alban, yna ni ddylai wario mwy na £6,750 yng Ngogledd Iwerddon.

A oes rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau roi gwybod am roddion i'r Comisiwn Etholiadol?

Fel pleidiau gwleidyddol, dim ond o ffynonellau a ganiateir y gall ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion o fwy na £500 a rhaid iddynt roi gwybod am unrhyw roddion sy'n dod i gyfanswm o fwy na £7,500 i'r Comisiwn Etholiadol. Rhoddir gwybod am y rhoddion hyn, ynghyd â gwariant, ar ôl y digwyddiad pleidleisio.

Pryd y bydd yn rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau roi gwybod am eu gwariant i'r Comisiwn Etholiadol?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sydd wedi gwario £250,000 neu lai gyflwyno eu ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol erbyn 23 Awst 2019.

5 Twyll etholiadol

Troseddau o ran pleidleisio

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal y cynhelir yr etholiad ynddi yn ymchwilio i unrhyw honiadau fod trosedd wedi cael ei chyflawni.

Mae gan bob heddlu bwynt cyswllt unigol penodedig (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiadau, a fydd yn rhoi cyngor i swyddogion yr heddlu lleol. Gall pobl hefyd ddewis cysylltu â Tacro'r Tacle yn ddienw ar 0800 555 111.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau o'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth fod twyll etholiadol yn digwydd, roi gwybod i'r heddlu ar unwaith, gan ddefnyddio'r rhif 101 ar gyfer materion nad ydynt yn faterion brys, oni fydd y drosedd wrthi'n cael ei chyflawni.

Mae troseddau'n cynnwys:

- **Cambersonadu** - pan fydd rhywun yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug), naill ai drwy'r post neu mewn gorsaf bleidleisio, yn bersonol neu fel dirprwy.
- **Dylanwad gormodol / bygwth** – Bydd person yn euog o ddylanwad gormodol os bydd yn ceisio dylanwadu ar bleidlais rhywun drwy:
 - ddefnyddio neu fygwth grym, trais neu ddulliau atal
 - achosi neu fygwth anaf, difrod, colled neu niwed
 - rhwystro neu atal rhywun rhag arddel ei hawl i bleidleisio'n ddirwystr - hyd yn oed os bydd yr ymgais yn aflwyddiannus.
- **Llwgwrwbrwyo** - Bydd person yn euog o lwgwrwbrwyo os bydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cynnig unrhyw wobwr (boed yn ariannol neu fel arall) er mwyn ysgogi unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.
- **Anrhegu** - Bydd person yn euog o anrhegu os bydd, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn cynnig bwyd, diod neu adloniant er mwyn dylanwadu'n llygredig ar unrhyw bleidleisiwr. Mae a wnelo anrhegu â bwriad llygredig - nid yw'n gymwys i letygarwch arferol.
- **Datganiadau anwir** - Mae'n drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau anwir am gymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar y broses o ethol ymgeisydd mewn etholiad. Nid yw datganiadau anwir nad ydynt yn ymwneud â chymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon o dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllibus neu'n athrodus. Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir bwriadol ar bapur enwebu.
- **Troseddau sy'n gysylltiedig ag aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy** - Ceir amryw droseddau o ran aml-bleidleisio a phleidleisio drwy ddirprwy, gan

gynnwys pleidleisio (boed yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy) pan na chaniateir i chi wneud hynny a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

- **Gwybodaeth anwir mewn perthynas â chofrestru a phleidleisio absennol** - Mae'n drosedd darparu gwybodaeth gofrestru anwir i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth anwir ar gyfer pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy.

Pa gamau diogelu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post yn ddiogel?

Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni pan fyddant yn gwneud cais am bleidlais bost, a hefyd pan fyddant yn bwrw eu pleidlais bost. Caiff y ddau gofnod eu gwirio. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau yn fodlon eu bod yn cyfateb, ni chaiff y papur pleidleisio ei gyfrif.

Atgyfnerthwyd y system ymhellach pan gyflwynwyd Cofrestriad Etholiadol Unigol yn 2014. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i gofrestru i bleidleisio ddarparu ei rif Yswiriant Gwladol yn gyntaf, cyn mynd ymlaen i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol uchod os bydd am fwrw ei bleidlais drwy'r post.

Cyfrifoldebau dros drechu twyll etholiadol

Sut mae'r Comisiwn yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal twyll pleidleisiau post?

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datblygu [Cod Ymddygiad i ymgyrchwyr](#), sy'n berthnasol i bob plaid wleidyddol, ymgeiswyr a'u cefnogwyr. Mae'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer ceisiadau am bleidlais bost a pheynnau pleidleisio drwy'r post, ymddygiad y tu allan i orsafoedd pleidleisio a rhoi gwybod am honiadau o dwyll etholiadol. Yn arbennig, mae'r Cod yn nodi'r canlynol mewn perthynas â phleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr:

- ni ddylent byth helpu i gwblhau papur pleidleisio - yn lle hynny, dylai ymgyrchwyr bob amser gyfeirio'r pleidleisiwr at staff y Swyddog Canlyniadau a fydd o bosibl yn gallu trefnu ymweliad cartref neu roi cymorth yn yr orsaf pleidleisio.
- ni ddylent byth drin na chymryd unrhyw bapur pleidleisio wedi'i gwblhau oddi wrth bleidleiswyr. Yn lle hynny, dylid annog pleidleiswyr i bostio eu pecyn pleidleisio drwy'r post eu hunain - fel arall, mae'n bosibl y bydd staff y Swyddog Canlyniadau yn gallu trefnu iddo gael ei gasglu.

Nid yw'r gyfraith yn gwahardd ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr rhag ymdrin â phleidleisiau post. Rydym am i'r gyfraith gael ei newid er mwyn sicrhau na fydd ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr yn derbyn nac yn ymdrin â cheisiadau wedi'u cwblhau am bleidleisiau absennol neu becynnau pleidleisio drwy'r post gan bleidleiswyr.

Beth sy'n digwydd os bydd plaid wleidyddol yn torri'r Cod Ymddygiad?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw achosion o dorri'r cod y rhoddwyd gwybod amdanynt a chymryd camau i sicrhau na fydd problemau yn codi eto. Gallai hyn olygu y bydd pleidiau yn cymryd camau disgyblu yn erbyn eu haelodau.

Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau ar waith i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddog Canlyniadau Lleol a'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal sy'n bennaf gyfrifol. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'r heddlu lleol.

Cyhoeddwyd [canllawiau ar blismona etholiadau](#) er mwyn helpu swyddogion yr heddlu a SPOCs wrth iddynt roi cynlluniau ar waith i atal a chanfod twyll etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllawiau hyn, sy'n adeiladu ar waith a gynhaliwyd gynt gan y Comisiwn Etholiadol a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, bellach yn rhan o Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona ar gyfer heddluoedd yng Nghymru a Lloegr.

6 Pleidleiswyr

Cofrestru i bleidleisio

Pwy all gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop ar 23 Mai?

Gall person gofrestru i bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop os yw:

- yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio
- yn ddinesydd Prydeinig
- yn ddinesydd Gwyddelig, yr UE neu'n ddinesydd cymwys yn un o wledydd y Gymanwlad

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor sydd wedi cofrestru fel etholwyr dramor o fewn y 15 mlynedd diwethaf bleidleisio yn etholiadau Ewrop. Gall pleidleiswyr gwasanaeth sydd wedi'u lleoli dramor sydd wedi cofrestru i bleidleisio hefyd bleidleisio.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i gofrestru yw dydd Mawrth 7 Mai 2019.

Beth yw'r dyddiadau cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Er mwyn gwneud cais am bleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy – 5pm, ddydd Mercher 8 Mai 2019.

Er mwyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, heblaw mewn argyfwng - 5pm, ddydd Mercher 15 Mai 2019.

Er mwyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng - 5pm, ddydd Iau 23 Mai 2019.

Er mwyn gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy, dylai pleidleiswyr fynd i [wefan Mae Dy Bleidlais Di'n Cyfri](#) i lawrlwytho a chwblhau'r ffurflen gais berthnasol a'i dychwelyd i'w swyddfa cofrestru etholiadol.

Yng Ngogledd Iwerddon, y dyddiad cau ar gyfer:

- gwneud cais am bleidlais drwy'r post a phleidlais drwy ddirprwy – 5pm, ddydd Iau 2 Mai 2019.
- gwneud cais am Gerdyn Adnabod Etholiadol – ddydd Gwener 10 Mai 2019
- gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu bleidlais drwy ddirprwy o ganlyniad i argyfwng – 5pm, ddydd Mercher 15 Mai.

Sut y gall rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pleidleiswyr bellach fynd ar-lein i gofrestru yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Gall pobl wneud cais o hyd drwy gwblhau ffurflen gofrestru bapur os oes well ganddynt.

Gallant gysylltu â swyddfa cofrestru etholiadol eu hawdurdod lleol i ofyn am ffurflenni neu gallant eu lawrlwytho o [wefan Llywodraeth y DU](#).

Ceir manylion cyswllt swyddfeydd cofrestru etholiadol awdurdodau lleol ar [wefan Mae Dy Bleidlais Di'n Cyfri](#).

Bydd dinasyddion o'r UE sy'n byw yn y DU naill ai'n pleidleisio yn y DU neu yn y wlad y maent yn ddinesydd ohoni. Ni allant bleidleisio ddwywaith.

Er mwyn pleidleisio yn y DU, mae angen iddynt:

- gofrestru i bleidleisio
- cwblhau ffurflen sy'n nodi eu bod am bleidleisio yn y DU ac nid yn y wlad y maent yn ddinesydd ohoni

Gall dinasyddion o'r UE lawrlwytho ffurflen cofrestru pleidleiswyr ar gyfer Senedd Ewrop o [wefan Mae Dy Bleidlais Di'n Cyfri](#).

Dylai dinasyddion o'r UE yng Ngogledd Iwerddon fynd i [wefan Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon](#).

A all rhywun gofrestru mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Gallwch gofrestru i bleidleisio mewn dau gyfeiriad gwahanol, ond dim ond mewn un man y gallwch bleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop.

Mae'n drosedd pleidleisio ddwywaith yn etholiadau Senedd Ewrop.

Sut mae aelodau o'r lluoedd arfog yn cofrestru ac yn pleidleisio?

Gall aelodau o'r lluoedd arfog a'u gwŷr neu wragedd neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref neu yn eu barics yn y ffordd arferol, neu fel 'pleidleisiwr o'r lluoedd arfog'. Bydd pleidleiswyr o'r lluoedd arfog yn llenwi datganiad y lluoedd arfog er mwyn sicrhau y gallant gofrestru pan fyddant oddi cartref ar ddyletswydd.

A all carcharorion bleidleisio?

Gall carcharorion remand (y rhai na chafodd eu collfarnu a'u dedfrydu) bleidleisio. Ni all carcharorion euog a gafodd eu cadw yn y ddalfa oherwydd eu dedfryd bleidleisio.

O dan rai amgylchiadau cyfyngedig, mae carcharorion a gaiff eu rhyddhau ar drwydded dros dro yn gymwys i gofrestru i bleidleisio. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [canllawiau ar gyfer swyddogion cofrestru etholiadol](#).

Y broses bleidleisio

Pryd bydd y gorsaf bleidleisio yn agor?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor am 7am ac yn cau am 10pm.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun mewn ciw i fynd i mewn i orsaf bleidleisio am 10pm?

Bydd unrhyw bleidleisiwr sy'n cyrraedd ei orsaf bleidleisio ac sydd mewn ciw yn aros i bleidleisio am 10pm **yn gallu pleidleisio**.

Pa system bleidleisio a ddefnyddir yn yr etholiadau hyn a sut rydych yn pleidleisio?

Ym Mhrydain Fawr, defnyddir cynrychiolaeth gyfrannol (rhestr gaeedig). Ar y papur pleidleisio, caiff pleidiau eu rhestru yn gyntaf, yn nhrefn yr wyddor, ar y papur pleidleisio, wedi'u dilyn gan yr ymgeiswyr unigol, hefyd yn nhrefn yr wyddor.

Er mwyn cwblhau eu papur pleidleisio, bydd pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr yn nodi un groes yn erbyn naill ai:

- Y blaid y maent am bleidleisio ar ei chyfer.
- Yr ymgeisydd unigol y maent am bleidleisio ar ei gyfer.

Yng Ngogledd Iwerddon, **defnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy (STV)**.

Dim ond rhestr o'r ymgeiswyr a geir ar y papurau pleidleisio yng Ngogledd Iwerddon. Bydd pleidleiswyr yn nodi 1, 2, 3 ac ati yn erbyn yr ymgeiswyr yn y drefn sydd orau ganddynt.

Pleidleisio'n bersonol

Gall pleidleiswyr cofrestredig fynd i'w **gorsaf bleidleisio** leol rhwng 7am a 10pm ddydd lau 23 Mai i fwrw eu pleidlais.

- Cyn y diwrnod pleidleisio, anfonir cerdyn pleidleisio at bleidleiswyr sy'n cynnwys manylion am leoliad eu gorsaf bleidleisio
- Dim ond yn yr orsaf bleidleisio a nodir ar y cerdyn hwn y gall pleidleiswyr bleidleisio
- Bydd staff gorsafoedd pleidleisio wrth law i egluro'r papur(au) pleidleisio a sut i bleidleisio
- Nid oes angen i bleidleiswyr fynd â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ond bydd gwneud hynny yn cyflymu'r broses

Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i bleidleiswyr gyflwyno prawf adnabod ffotograffig penodedig mewn gorsafoedd pleidleisio.

Pleidleisio drwy'r post

Os na fydd pleidleiswyr am fynd i orsaf bleidleisio, neu os na fyddant yn gallu gwneud hynny, gallant wneud cais am bleidlais bost. Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais bost ar gyfer etholiad penodol, cyfnod penodol o amser, neu ar gyfer pob etholiad. Er mwyn pleidleisio drwy'r post, bydd angen i etholwyr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost cyn 5pm, ddydd Mercher 8 Mai 2019.

- Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu hanfon yn uniongyrchol at bleidleiswyr tua wythnos cyn y diwrnod pleidleisio
- Dylai pleidleiswyr gwblhau eu papurau pleidleisio a'u dychwelyd ar unwaith, er mwyn iddynt gyrraedd cyn 10pm ddydd lau 23 Mai

- Ni chaiff pleidleisiau sy'n cyrraedd ar ôl 10pm ddydd Iau 23 Mai eu cyfrif. Yr unig eithriad yw os bydd rhywun mewn ciw mewn gorsaf bleidleisio am 10pm er mwyn dychwelyd pleidlais bost a gwblhawyd. Yn yr achos prin hwnnw, gellir dychwelyd y bleidlais bost ar ôl 10pm
- Os na fydd pleidleiswyr yn caniatáu digon o amser i bostio eu pleidlais, gallant fynd â hi i orsaf bleidleisio yn eu hardal bleidleisio rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio
- Rhaid i bleidleiswyr hefyd gofio cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post - gyda'u llofnod a'u dyddiad geni neu ni chaiff eu pleidlais ei chyfrif

Gall pleidleiswyr na allant lofnodi eu henw neu na allant ei lofnodi mewn modd cyson wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i bleidleisio drwy'r post heb lofnodi. Gelwir hyn yn gyffredinol yn gais am hepgoriad pleidlais bost.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Gall pleidleiswyr gofrestru ar gyfer 'pleidlais drwy ddirprwy'. Mae hyn yn golygu eu bod yn gofyn i rywun y maent yn ymddiried ynddo bleidleisio ar eu rhan dros yr ymgeisydd y maent am bleidleisio drosto. Bydd angen iddynt gwblhau a llofnodi ffurflen a'i dychwelyd i'w swyddfa gofrestru etholiadol leol erbyn 5pm, ddydd Mercher 15 Mai 2019.

Pa ddarpariaethau a wneir er mwyn sicrhau mwy o hygyrchedd i bleidleiswyr ag anableddau?

Dylai Swyddogion Canlyniadau Lleol gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y caiff gorsafoedd pleidleisio eu gosod gan ystyried y pleidleisiwr. Yn benodol, dylid ystyried anghenion pleidleiswyr sydd ag anableddau gwahanol. Dylid hefyd ystyried y ffordd y caiff yr holl ddodrefn a chyfarpar angenrheidiol eu gosod, yn ogystal â lleoliad hysbysiadau, ynghyd â lleoliad arwyddion y tu mewn i'r orsaf bleidleisio ac arwyddion allanol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol darparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy ym mhob gorsaf bleidleisio. Mae hyn yn caniatáu i rywun sy'n ddall neu'n rhannol ddall farcio'r papur pleidleisio ei hun, unwaith y bydd naill ai ei gydymaith neu'r aelod o staff sy'n gyfrifol am yr orsaf bleidleisio (y Swyddog Llywyddu) wedi darllen y manylion ar y papur pleidleisio iddo. Yn ogystal, rhaid arddangos fersiwn print bras o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio er mwyn helpu pleidleiswyr sy'n rhannol ddall. Rhaid bod copïau mwy o faint a ddelir â llaw, gyda'r gair 'simpl' wedi'i farcio arnynt, hefyd ar gael i unrhyw un sydd eu hangen.

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos â'r Grŵp Hygyrchedd Etholiadau, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet, er mwyn ystyried sut y gellir sicrhau bod trefniadau pleidleisio yn fwy hygyrch. [Mae'r Comisiwn wedi ymateb i Gais am Dystiolaeth gan Lywodraeth y DU](#) drwy gyflwyno argymhellion o ran sut y gellir sicrhau bod etholiadau yn fwy hygyrch.

Cyhoeddwyd [Ymateb Llywodraeth y DU i'r Cais am Dystiolaeth](#) ym mis Awst 2018. Mae'n rhestru'r canfyddiadau allweddol a'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwella hygyrchedd etholiadau yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn darparu [canllawiau i staff gorsafoedd pleidleisio](#), (mae atodiad 1 yn cyfeirio at faterion hygyrchedd) i'w helpu i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn hygyrch i bawb. Mae'r wybodaeth hon ar gael i staff sy'n cynnal etholiadau Senedd Ewrop. A yw'n orfodol defnyddio pensiliau mewn gorsafoedd pleidleisio? A ellir defnyddio peniau yn lle hynny?

Nid oes dim yn y gyfraith sy'n nodi p'un a ddylid defnyddio peniau neu pensiliau i farcio papur pleidleisio. Defnyddiwyd pensiliau i farcio papurau pleidleisio am resymau ymarferol: er enghraifft, gyda pheniau inc mae siawns y gall yr inc sychu neu ollwng. Hefyd, gall inc achosi i'r marc a wnaed gan y pleidleisiwr drosglwyddo pan gaiff y papur pleidleisio ei blygu, a allai arwain at benderfyniad i wrthod y papur pleidleisio. Os bydd pleidleisiwr yn dymuno gwneud hynny, gall ddefnyddio pen i farcio ei bapur pleidleisio.

A all pleidleiswyr gymryd hunluniau neu ffotograffau eraill yn yr orsaf bleidleisio?

Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â chael gwybodaeth mewn gorsafoedd pleidleisio a datgelu gwybodaeth o'r fath yn gymhleth. O ystyried y risg y bydd rhywun sy'n tynnu llun y tu mewn i orsaf bleidleisio yn torri'r gyfraith o bosibl, p'un a yw hynny'n fwriadol ai peidio, ein cyngor yw na ddylid tynnu unrhyw luniau y tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

A yw'n iawn i rywun dynnu llun o'i bleidlais bost a'i roi ar y cyfryngau cymdeithasol i ddangos sut mae wedi pleidleisio?

Caiff papurau pleidleisio drwy'r post eu trin yn wahanol mewn cyfraith etholiadol, o gymharu â phapurau pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Gall rhywun sy'n pleidleisio drwy'r post dynnu llun o'i bapur pleidleisio drwy'r post ei hun a'i gyhoeddi (yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol).

Fodd bynnag, er y gall yr unigolyn sy'n pleidleisio drwy'r post ei hun gyhoeddi'r wybodaeth, pe bai rhywun arall yn ei ddarbwylllo neu'n ei annog i rannu'r wybodaeth hon, byddai'n cyflawni trosedd. Os oes unrhyw awgrymiadau neu honiadau y gallai hyn fod yn digwydd, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am y mater.

Codi ymwybyddiaeth o gofrestrriad pleidleiswyr

Beth mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal y gofrestr etholiadol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol ac yn arwain yr ymdrechion i gael cymaint o bobl â phosibl ar y cofrestrau.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i annog cyfranogiad etholiadol. Bydd ganddynt gynlluniau manwl ar waith i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau ar gyfer cofrestru pleidleiswyr yn eu hardaloedd. Bydd y cynlluniau hyn hefyd yn nodi sut y byddant yn annog grwpiau sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio i wneud hynny cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru.

Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hysbysebu er mwyn cyrraedd eu trigolion lleol, gan gynnwys ysgrifennu at drigolion lleol, ac mae llawer wedi datblygu partneriaethau ag ysgolion a cholegau lleol er mwyn annog pobl ifanc i gofrestru i bleidleisio.

Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Lansiodd y Comisiwn ei ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i annog pleidleiswyr i gofrestru ar ddydd Iau 18 Ebrill a bydd yn parhau tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru, sef 7 Mai. Ceir hysbysebion ar sianelau digidol, wrth chwilio ar-lein ac ar sianelau cymdeithasol, ac ar y teledu a'r radio yn ystod yr wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru. Ategir yr hysbysebion hyn gan weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r Comisiwn hefyd yn rhannu adnoddau i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill eu defnyddio fel rhan o'u gwaith i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Sut y gall sefydliadau eraill helpu i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Fel ym mhob etholiad diweddar, mae'r Comisiwn yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner - o'r sector corfforaethol, cyhoeddus a gwirfoddol - er mwyn ceisio cyrraedd pleidleiswyr o grwpiau lle na cheir lefelau cofrestru digonol yn draddodiadol a'u hannog i gofrestru i bleidleisio. Dylai unrhyw sefydliad sy'n awyddus i hyrwyddo'r negeseuon hyn fynd i'n [gwefan Mae Dy Bleidlais Di'n Cyfri](#), lle y gallant hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr cofrestru pleidleiswyr, 'Y Gofrestr'.

7 Digwyddiadau cyfrif

Y cyfrif a datgan y canlyniadau

Pwy sy'n gyfrifol am y cyfrif?

Y Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol sy'n bennaf cyfrifol am gyfrif y pleidleisiau yn ei etholiad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod Swyddogion Llywyddu yn cludo blychau pleidleisio o orsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif mewn modd diogel ac amserol; a bod y sawl a gaiff eu recriwtio i gyfrif papurau pleidleisio wedi'u hyfforddi'n dda o ran sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau.

Cynhelir y prosesau cyfrif yn lleol mewn canolfannau cyfrif penodedig, a chânt eu goruchwyllo gan y Swyddog Canlyniadau Lleol o bob ardal gyfrif. Wedyn, cyflwynir y cyfansymiau ar gyfer pob ardal gyfrif i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol y mae'n rhaid iddo eu cymeradwyo cyn y gellir eu cyhoeddi'n lleol.

Pryd bydd y cyfrif yn dechrau?

Dylai'r Swyddog Canlyniadau Lleol gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif y pleidleisiau er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn barod cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 10pm ddydd Sul 26 Mai. Dyna pryd y bydd y digwyddiad pleidleisio wedi cau ledled yr Undeb Ewropeaidd gyfan.

Ni ddylai Swyddogion Canlyniadau Lleol na'u staff ddatgelu nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer unrhyw blaid nac ymgeisydd unigol (gan gynnwys cyfansymiau lleol dros dro) i unrhyw un ac eithrio'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu ei glercod tan ar ôl 10pm ddydd Sul 26 Mai.

Bydd y cyfrif yng Ngogledd Iwerddon yn dechrau ddydd Llun 27 Mai. Ac eithrio etholiadau Senedd y DU, mae'r broses o gyfrif pleidleisiau yng Ngogledd Iwerddon fel arfer yn dechrau ar y bore ar ôl i'r digwyddiadau pleidleisio gau a gall gymryd 1-2 ddiwrnod gan fod y broses ar gyfer cyfrif Pleidleisiau Sengl Trosglwyddadwy yn fwy cymhleth.

Yn yr Alban, ni chaiff y canlyniad ei ddatgan tan ddydd Llun. Nid yw Ynysoedd y Gorllewin yn cyfrif ar ddydd Sul. Bydd gweddill yr ardaloedd cyfrif lleol yn yr Alban yn cyfrif cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 10pm ddydd Sul 26 Mai.

Sut y byddaf yn gwybod pryd y caiff y canlyniadau eu datgan?

Ni ellir datgan unrhyw ganlyniadau tan ar ôl 10pm ddydd Sul 26 Mai.

Bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn gallu darparu'r amseroedd cyfrif a ragwelir.

Pwy all fynychu'r cyfrif?

Yn ôl y gyfraith, mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif:

- Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff
- Y Swyddog Canlyniadau Lleol a'i staff

- ymgeiswyr ac un gwestai fesul ymgeisydd
- asiantiaid etholiad
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol i fod yn bresennol

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn cyfrif gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol perthnasol i ofyn am ganiatâd i fod yn bresennol yn y cyfrif ac adeg datgan y canlyniadau.

Sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif a'r canlyniadau eu cyhoeddi?

Mae pedwar cam i'r broses gyfrif.

1. **Derbyn blychau pleidleisio:** bydd blychau pleidleisio drwy'r post a blychau pleidleisio o'r gorsafodd pleidleisio yn cyrraedd lleoliad y cyfrif
2. **Dilysu:**
 - a. Bydd staff yn cyfrif y papurau pleidleisio drwy'r post ac yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y blychau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r niferoedd a gofnodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol
 - b. Bydd staff hefyd yn cyfrif y papurau pleidleisio o bob gorsaf pleidleisio. Byddant yn cadarnhau bod nifer y papurau pleidleisio yn cyfateb i nifer y papurau a ddsbarthwyd, fel y cofnodwyd ar gyfrifon papurau pleidleisio'r Swyddog Llywyddu
 - c. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn llunio datganiad yn dangos faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd o gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd
3. **Cyfrif y pleidleisiau**
 - Bydd staff yn rhannu'r papurau pleidleisio yn ôl pob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol
 - Bydd staff yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol
 - Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yn rhannu'r canlyniad dros dro ag ymgeiswyr a'u hasiantiaid. Ar y cam hwn, gall ymgeisydd neu asiant ofyn iddynt ailgyfrif y pleidleisiau. Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod y cais os bydd o'r farn bod y cais yn afresymol
4. **Datgan y canlyniad:** Unwaith y bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r cyfansymiau ar gyfer yr ardal gyfrif, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyhoeddi'r datganiad cyfansymiau lleol. Bydd y Swyddog Canlyniadau

Rhanbarthol yn datgan nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ac yna'n cyhoeddi enw'r ymgeisydd/ymgeiswyr â'r nifer fwyaf o bleidleisiau fel yr ymgeisydd/ymgeiswyr a etholwyd.

Beth sy'n digwydd gyda phapurau pleidleisio a ddifethwyd?

Unwaith y bydd cam dilysu'r cyfrif wedi'i gwblhau, caiff y papurau pleidleisio eu rhannu yn ôl ymgeisydd a chaiff unrhyw bapurau pleidleisio amheus eu nodi. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyflwyno dyfarniad ynghylch unrhyw bapurau pleidleisio amheus ym mhresenoldeb yr ymgeiswyr a'r asiantiaid ac mae'r Comisiwn wedi rhoi canllawiau i'w helpu i wneud hyn.

Caiff papurau pleidleisio a ddifethwyd eu selio ar wahân i bapurau pleidleisio eraill ac yna bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cyhoeddi sawl papur pleidleisio a wrthodwyd ar ôl iddo gyhoeddi'r canlyniadau lleol.

Sut mae'r broses o agor pleidleisiau post yn rhan o'r broses hon?

Mae'n debygol y cynhelir sawl sesiwn agor pleidleisiau post cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â'r diwrnod pleidleisio ei hun.

Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi rhybudd o 48 awr o leiaf i ymgeiswyr yn nodi pryd a ble y cynhelir y sesiynau. Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn penderfynu a yw'r dyddiad geni a'r llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd yn flaenorol ac sydd yn y cofnodion. Os na fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn fodlon eu bod yn cyfateb, caiff y bleidlais ei gwrthod.

Gall ymgeiswyr arsylwi ar y broses neu benodi asiant pleidleisiau post i wneud hynny. Caiff papurau pleidleisio eu cadw â'u hwynebaw i lawr yn ystod sesiynau agor pleidleisiau post. Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut y cafodd papur pleidleisio penodol ei farcio na throsglwyddo gwybodaeth o'r fath a ddeilliodd o'r sesiwn.

Rhoddir pob papur pleidleisio dilys yn y blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn eu dosbarthu i leoliad y cyfrif er mwyn eu cyfrif ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.

Sut y caiff seddi eu dyrannu?

Ym Mhrydain Fawr, defnyddir system cynrychiolaeth gyfrannol D'Hondt i ddyrannu seddi. Golyga hyn:

- Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyfrif yr holl bleidleisiau ar gyfer pob plaid wleidyddol ac ymgeisydd unigol yn y rhanbarth etholiadol cyn cymhwyso fformwla d'Hondt i gyfrifo'r seddi i'w dyrannu.
- Dyrennir y sedd gyntaf i'r plaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn y rhanbarth etholiadol.

Dyrennir pob sedd ddilynol i'r plaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ar ôl y cyfrifiad canlynol, sy'n cael ei gynnal ar ôl dyrannu pob sedd: Cyfanswm nifer y pleidleisiau a dderbyniwyd ÷ Nifer y seddi a ddyrannwyd i'r plaid wleidyddol/ymgeisydd unigol eisoes yn y rhanbarth etholiadol +1

- Caiff y seddi y mae gan bob plaid wleidyddol yr hawl iddynt eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar y rhestr plaid.

- Caiff unrhyw ymgeisydd unigol y dyrannwyd sedd iddo neu unrhyw blaid y dyrannwyd yr un faint o seddi ag sydd o ymgeiswyr ar ei rhestr iddo eu heithrio rhag camau dilynol y cyfrifiad.

Yng Ngogledd Iwerddon, defnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy (STV).

Bydd pleidleiswyr yn nodi 1, 2 a 3 yn erbyn yr ymgeiswyr yn y drefn sydd orau ganddynt. Caiff yr ymgeiswyr â'r nifer leiaf o bleidleisiau eu dileu a chaiff eu pleidleisiau eu hailddosbarthu.

Ailadroddir y broses hon tan y bydd y nifer ofynnol o ymgeiswyr yn weddill.

Enghraifft wedi'i chyfrifo o system D'Hondt

Tabl 1

	Plaid A	Plaid B	Plaid C	Plaid D	Plaid E
Pleidleisiau	330,000	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 1	330,000	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 2	165,000	280,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 3	165,000	140,000	160,000	60,000	15,000
Sedd 4	110,000	140,000	160,000	60,000	15,000
Cyfanswm y seddi	2	1	1	0	0

- Yn yr enghraifft wedi'i chyfrifo yn Nhabl 1, mae pedair sedd ar gael ac maent wedi'u dyrannu fel a ganlyn:
- Sedd 1 – Plaid A a enillodd y nifer uchaf o bleidleisiau (330,000) ac felly mae'r hawl ganddi i gael y sedd gyntaf sydd ar gael.
- Sedd 2 – Cyfrifir dyraniad y sedd nesaf drwy rannu cyfanswm nifer y pleidleisiau a gafodd pob rhestr â nifer y seddi y dyrannwyd iddi yn y rhanbarth etholiadol eisoes, ac un ychwanegol. O ganlyniad, rhaid rhannu cyfanswm gwreiddiol Plaid A â dau, a chaiff cyfanswmiau'r pleidiau eraill eu rhannu ag un o hyd. Plaid B, sydd â chyfanswm o 280,000, sy'n ennill yr ail sedd.
- Sedd 3 - I gyfrifo dyraniad y drydedd sedd, caiff cyfanswm nifer pleidleisiau Plaid A a Phlaid B ei rannu â dau, a chaiff cyfanswmiau Plaid C a Phlaid D eu rhannu ag un o hyd.

- Mae hyn yn golygu bod y sedd hon yn cael ei dyrannu i Plaid A sydd â chyfanswm o 165,000.
- Sedd 4 – Gan fod dwy sedd gan Plaid A bellach, caiff ei chyfanswm gwreiddiol o 330,000 ei rannu â thri. Ar y cam hwn, Plaid C, sydd â chyfanswm o 160,000 sy'n ennill y bedwaredd sedd, sef y sedd olaf.

A ellir herio'r canlyniad ar ôl iddo gael ei gyhoeddi?

Gall rhywun herio canlyniad etholiad Senedd Ewrop drwy gyhoeddi deiseb etholiadol. Mae'n gam cyfreithiol a chaiff ei ddyfarnu gan farnwr mewn llys.

Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb mewn etholiad Senedd Ewrop o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

[Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad interim ar y cyd](#) ar 4 Chwefror 2016 yn argymhell y dylid moderneiddio'r broses ar gyfer herio etholiadau, gan ei gwneud hi'n haws i bleidiau ei deall a'i defnyddio, ac y dylid rhoi'r pŵer i farnwyr, mewn achosion priodol, gyfyngu'r costau posibl i herwyr. Mae'r Comisiwn Etholiadol o blaid yr argymhelliad hwn.

Ceir rhagor o wybodaeth am herio canlyniad etholiad yn [Rhan 6 ein Canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer etholiadau prif ardaloedd](#).

A allaf ffilmio mewn digwyddiadau cyfrif?

Rhaid i aelodau o'r cyfryngau a ffotograffwyr sydd am fod yn bresennol mewn digwyddiadau cyfrif a ffilmio ynddynt ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol perthnasol.